**ASTUDIAETH ACHOS: Cyngor Cymuned Aber-miwl gyda Llandysul**

**Cyflwyniad**

Cyngor Cymuned bach gydag un ar ddeg o Gynghorwyr, sy'n gyfrifol am Aber-miwl, anheddiad allweddol yn y Cynllun Datblygu Unedol, Llandysul, pentref bach, a'r cyffiniau sy'n cynnwys aneddiadau bach fel Green Lane a Llanmerewig, yn ogystal â ffermydd gwasgaredig ac anheddau gwledig.

Mae'r Cyngor yn rhan o'r Clwstwr Gwledig o Gynghorau Dyffryn Trefaldwyn (VMRC), sy'n cynnwys Cyngor Tref Trefaldwyn, Cyngor Cymuned Aberriw, Cyngor Cymuned Ffordun gyda Thre'r-llai a Threlystan a Chyngor Cymuned Ceri, Dolfor a Sarn.

**Y Prosiect**

Fis Tachwedd 2021, mynychodd aelod o staff Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn (MWT) gyfarfod VMRC, lle bu'n cyflwyno prosiect Cysylltiadau Gwyrdd Powys i'r Cynghorwyr. Roedd tri Chynghorydd o Aber-miwl/ Llandysul yn bresennol, ac roedd un ohonyn nhw'n awyddus iawn i gael cyngor a chyfarwyddyd yr Ymddiriedolaeth i helpu i wella bioamrywiaeth ledled ardal y Cyngor Cymuned.

Fis Ionawr 2022, bu staff MWT yn ymweld â nifer o safleoedd yn Aber-miwl a Llandysul gydag un o'r Cynghorwyr, gan gynnig cyngor ar sut i wella'r safleoedd ar gyfer bioamrywiaeth, ond hefyd gyda phobl mewn cof. Roedd yna bryderon pe bai rhai o'r ardaloedd yn cael eu gadael i "dyfu'n wyllt" y gallai pobl feddwl eu bod yn aflêr ac y byddai perchnogion cŵn yn fwy tebygol o adael baw cŵn ar ôl.

Bu staff MWT hefyd yn cynnal digwyddiad Diwrnod y Wennol Ddu yn Eglwys Llandysul ar gyfer aelodau'r eglwys a'r gymuned, lle bu cyfranogion yn adeiladu blychau'r wennol ddu o becynnau fflat Habi-sabi. Gwnaeth y staff hefyd anerchiad byr am y wennol ddu a sut y gall y mynychwyr helpu'r aderyn hwn yn y pentref.



Blychau Habi-sabi ar gyfer y wennol ddu, wedi'u rhoi at ei gilydd ac yn barod i'w rhoi i fyny yn y pentref © MWT

**Y Cyngor Cymuned yn bwrw ymlaen â phethau**

Dechreuodd y Cyngor Cymuned roi rhywfaint o'r cyngor a roddwyd iddyn nhw ar waith yn 2022. Gadawyd ardaloedd o laswellt hirach yn y parc yn Aber-miwl a phlannwyd coed ffrwythau. Cofleidiodd aelodau'r gymuned yr ardaloedd hyn o laswellt hirach; ni wnaed unrhyw gwynion ynglŷn â'r ardal yn edrych yn aflêr. Crëwyd ardal blodau gwyllt yn Llandysul, gan ddefnyddio grant o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Bu gwirfoddolwyr yn plannu dros 200 o blanhigion a phlannwyd coeden i ddathlu Jiwbilî y Frenhines. Fis Mehefin 2022, daeth Iolo Williams, sy'n byw yn agos at y pentref, i agor y ddôl yn swyddogol.

Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus iawn i helpu i wneud gwahaniaeth yn yr ardal ar gyfer bywyd gwyllt, tra'u bod hefyd yn cadw'r gymuned mewn cof. Mae staff MWT wedi bod yn cefnogi'r Cyngor â'u cynllun gweithredu bioamrywiaeth. Yn y dyfodol, fe hoffai'r Cyngor blannu gwrych bach brodorol ar hyd llwybr yn arwain i barc a thorri glaswellt yn llai rheolaidd mewn rhai ardaloedd o'r mynwentydd.




Gwirfoddolwyr yn plannu ardal newydd o flodau gwyllt ©County Times

**Allbynnau'r Prosiect**

| Gweithgaredd | Ymgysylltiad |
|---|---|
| Cynghorwyr yr ymgysylltwyd â nhw | 3 |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Rhoddwyd cyngor |
| Coed ffrwythau a blodau gwyllt a blannwyd | 200+ |
| Digwyddiad y Wennol Ddu | 10 |
| Blychau'r wennol ddu a wnaed | 10 |

Bu MWT yn ymgysylltu â Chynghorwyr lleol i ennyn gwell dealltwriaeth o sut y gallai'r Cyngor wella bioamrywiaeth yr ardal. Cynorthwyodd MWT drwy drefnu digwyddiad plannu coed ffrwythau a blodau gwyllt, a fynychwyd gan Gynghorwyr a'r gymuned leol.

**Deilliannau'r Prosiect**

- Darparodd MWT gyngor a chyfarwyddyd i'r Cyngor ar wella bioamrywiaeth ac mae'n eu helpu i lunio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Bydd y Cynllun hwn yn darparu fframwaith y gellir datblygu gwaith rheoli cynefinoedd o'i fewn yn y dyfodol.
- Mae'r gwelliannau i'r cynefinoedd yn Aber-miwl a Llandysul, sydd wedi cynnwys y gymuned leol mewn plannu coed a blodau gwyllt, wedi cynyddu'r cyfranogi o fewn y gymuned leol, gan ddarparu byddin o wirfoddolwyr i gefnogi datblygiad parhaus y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.